O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 637(Cy.63)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) (Diwygio) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2008 ("Rheoliadau 2008") a Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2009 ("Rheoliadau 2009").

Mae Rheoliadau 2008 a Rheoliadau 2009 yn darparu ar gyfer talu grant i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach dynodedig yn ystod y blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2008 ac ar neu ar ôl 1 Medi 2009 yn y drefn honno. Mae cyrsiau dynodedig fel y'u diffinnir yn y rheoliadau hynny'n cynnwys cyrsiau sy'n cael eu hariannu gan Gyngor Dysgu a Sgiliau Lloegr.

Mae Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22) yn gwneud darpariaeth ar gyfer diddymu Cyngor Dysgu a Sgiliau Lloegr ac ar gyfer sefydlu Asiantaeth Ddysgu Pobl Ifanc Lloegr a'r Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau i ariannu cyrsiau addysg bellach yn Lloegr.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2008 a Rheoliadau 2009 er mwyn gwneud darpariaeth i'r cyrsiau dynodedig a ddiffinnir yn y rheoliadau hynny gynnwys cyrsiau a ariennir gan Asiantaeth Ddysgu Pobl Ifanc Lloegr a chan y Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau.

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei baratoi ar gyfer yr offeryn hwn, gan nad yw'n effeithio o gwbl ar gostau busnesau, elusennau neu gyrff gwirfoddol. Bach iawn yw'r effaith ar y sector cyhoeddus.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 637(Cy. 63)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) (Diwygio) 2010

Gwnaed *7 Mawrth 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *9 Mawrth 2010*

Yn dod i rym *1 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) (Diwygio) 2010.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2010 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(**1** 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), adrannau 146, 153 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p.1), adran 722 ac Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p.14), adran 147 a Deddf Addysg Uwch 2004 (p.8), adrannau 42, 43, 50 ac Atodlen 7. Diwygiwyd adran 42 ac adran 43 gan Ddeddf Addysg 2002 (p.32), adran 148 ac Atodlen 12 a Deddf Addysg Uwch 2004 (p.8) adran 49 ac Atodlen 6.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c), (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ac mae Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149) (C.79)) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159) (C. 56)) yn cyfeirio at hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

Diwygio Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2008

2. Diwygir Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2008(**1**) yn unol â'r rheoliad a ganlyn.

3. Yn rheoliad 2, yn lle paragraff (b) o'r diffiniad o "cwrs dynodedig", rhodder —

"(b) sy'n cael ei ariannu gan—

(i) Llywodraeth Cynulliad Cymru;

(ii) y Cyngor Dysgu a Sgiliau o dan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**2**);

(iii) Asiantaeth Ddysgu Pobl Ifanc Lloegr o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**3**);

(iv) y Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009; neu

(v) awdurdod cyhoeddus sy'n gyfrifol am ariannu addysg (ac eithrio addysg uwch) a hyfforddiant sy'n addas at ofynion personau 19 oed neu drosodd o dan gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon;".

Diwygio Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2009

4. Diwygir Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2009(**4**) yn unol â'r rheoliad a ganlyn.

5. Yn rheoliad 2, yn lle paragraff (b) o'r diffiniad o "cwrs dynodedig", rhodder—

"(b) sy'n cael ei ariannu gan—

(i) Llywodraeth Cynulliad Cymru;

(ii) y Cyngor Dysgu a Sgiliau o dan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**5**);

(iii) Asiantaeth Ddysgu Pobl Ifanc Lloegr o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**6**);

(iv) y Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009; neu

---

(**1**.) O.S. 2008/538 (Cy.51).
(**2**) 2000 p. 21.
(**3**) 2009 p. 22.
(**4**) O.S. 2009/2158 (Cy.182).
(**5**) 2000 p. 21.
(**6**) 2009 p. 22.

(v) awdurdod cyhoeddus sy'n gyfrifol am ariannu addysg (ac eithrio addysg uwch) a hyfforddiant sy'n addas at ofynion personau 19 oed neu drosodd o dan gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon;".

Leighton Andrews

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

7 Mawrth 2010